***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 1968

# Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003

**Enwi, cychwyn, cymhwyso ac estyn diffiniadau**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 1 Awst 2003.

(2) At ddibenion Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 o'i chymhwyso at y Gorchymyn hwn —

(a) mae'r diffiniad o anifeiliaid ("*animals*") yn is-adran (1) o adran 87 o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys pob mamal ac eithrio dyn;

(b) mae'r diffiniad o ddofednod ("*poultry*") yn is-adran (4) o adran 87 o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys pob aderyn;

(c) mae'r diffiniad o glefyd yn is-adran (1) o adran 88 o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys pob clefyd sy'n effeithio ar anifeiliaid; ac

(ch) mae'r diffiniad o glefyd yn is-adran (3) o adran 88 o'r Ddeddf honno yn cael ei estyn i gynnwys pob clefyd sy'n effeithio ar ddofednod.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn —

mae "anifail" ("*animal*") yn cynnwys aderyn;

ystyr "cyfarpar" ("*equipment*") yw unrhyw gyfarpar sy'n cael ei gludo gyda chyfrwng cludo i'w ddefnyddio gydag anifeiliaid;

mae "cyfrwng cludo" ("*means of transport*") yn cynnwys ei ffitiadau, ei rannau datodadwy ac unrhyw gynhwysyddion (p'un a ydynt yn ddatodadwy ai peidio) sy'n cael eu defnyddio gydag ef;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw unrhyw adeilad, safle neu le (ac eithrio cyfleuster trafod adar hela wedi'u ffermio) ar gyfer cigydda anifeiliaid y bwriedir gwerthu eu cnawd ar gyfer ei fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys unrhyw le sydd ar gael mewn cysylltiad ag adeilad, safle neu le o'r fath ar gyfer caethiwo anifeiliaid tra byddant yn aros yno i gael eu cigydda; ac

ystyr "safle gwerthu" ("*sale premises*") yw safle sydd wedi'i drwyddedu o dan Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2003(**1**).

(2) Rhaid i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig. Gellir ei wneud yn ddarostyngedig i amodau a gellir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu unrhyw bryd mewn ysgrifen.

(**1**) O.S. 2003/1967 (Cy. 212).

**Glanhau a diheintio mewn cysylltiad â chludo anifeiliaid carnog a dofednod**

**3.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn cysylltiad â chludo —

(a) anifeiliaid carnog, ac eithrio ceffylau;

(b) colomennod rasio; ac

(c) y canlynol, os cânt eu magu neu eu cadw mewn caethiwed ar gyfer bridio, cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, neu er mwyn ailstocio cyflenwadau adar hela: ffowls domestig, tyrcwn, gwyddau, hwyaid, ieir gini, soflieir, colomennod, ffesantod, petris ac adar di-gêl,

ac mae cyfeiriadau yn yr erthygl hon at "anifail" i gael eu dehongli yn unol â hynny.

(2) Yn yr amgylchiadau a nodir yn Atodlen 1, gofynion erthygl 4 sydd yn gymwys yn lle gofynion yr erthygl hon.

(3) Rhaid i ddefnyddiwr unrhyw gyfrwng cludo a ddefnyddiwyd i gludo unrhyw anifail, neu unrhyw beth a allai beri perygl o drosglwyddo clefyd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a heb fod yn fwy na 24 awr ar ôl cwblhau'r daith, sicrhau bod y cyfrwng cludo ac unrhyw gyfarpar yn cael eu glanhau a'u diheintio yn unol ag Atodlen 2 neu (yn achos cynhwysydd) eu dinistrio.

(4) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gyfrwng cludo, na pheri na chaniatáu i gyfrwng cludo gael ei ddefnyddio, i gludo unrhyw anifail onid yw'r cyfrwng cludo ac unrhyw gyfarpar wedi cael eu glanhau a'u diheintio yn unol ag Atodlen 2 ers y tro diwethaf iddynt gael eu defnyddio i gludo unrhyw anifail, neu unrhyw beth a allai beri perygl o drosglwyddo clefyd.

(5) Os yw cyfrwng cludo neu unrhyw gyfarpar wedi ei faeddu fel y gallai beri perygl o drosglwyddo clefyd ers y tro diwethaf iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio, ni chaiff neb lwytho anifail i mewn i'r cyfrwng cludo, na pheri na chaniatáu i unrhyw anifail gael ei lwytho, onid yw'r rhannau o'r cyfrwng cludo neu'r cyfarpar a faeddwyd wedi cael eu glanhau a'u diheintio eto yn unol â pharagraffau 1, 3 a 4 o Atodlen 2.

(6) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo anifeiliaid symud ymaith unrhyw anifeiliaid sydd wedi marw wrth iddynt gael eu cludo, ac unrhyw sarn (llaesodr) fudr a charthion o'r cyfrwng cludo cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**Glanhau a diheintio mewn cysylltiad â chludo mamaliaid ac adar eraill, ac anifeiliaid carnog a dofednod mewn rhai amgylchiadau**

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn cysylltiad â chludo —

(a) pob mamal ac eithrio anifeiliaid carnog;

(b) pob aderyn nas cynhwysir yn erthygl 3; ac

(c) anifeiliaid ac adar a bennir yn erthygl 3 yn yr amgylchiadau a bennir yn Atodlen 1,

ac mae'n rhaid i gyfeiriadau yn yr erthygl hon at "anifail" gael eu dehongli yn unol â hynny.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys yn achos —

(a) cludiant nad yw o natur fasnachol;

(b) anifail unigol sy'n mynd gyda pherson sy'n gyfrifol am yr anifail yn ystod y daith; neu

(c) cludo anifeiliaid anwes sy'n mynd gyda'u perchenogion ar daith breifat.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo anifeiliaid, neu'n peri neu'n caniatáu i anifeiliaid gael eu cludo, os yw'r erthygl hon yn gymwys, sicrhau —

(a) eu bod yn cael eu llwytho ar gyfrwng cludo sydd wedi ei lanhau ac, os oes angen, ei ddiheintio; a

(b) bod anifeiliaid sydd wedi marw wrth iddynt gael eu cludo, unrhyw sarn (llaesodr) fudr a charthion yn cael eu symud ymaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(4) Rhaid gwneud y glanhau a'r diheintio o dan yr erthygl hon yn unol â pharagraffau 1, 3 a 4 o Atodlen 2.

### Glanhau a diheintio mewn cysylltiad â chludo ceffylau

**5.**—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo ceffylau, neu'n peri neu'n caniatáu i geffylau gael eu cludo, sicrhau —

(a) eu bod yn cael eu llwytho ar gyfrwng cludo sydd wedi ei lanhau ac, os oes angen, ei ddiheintio; a

(b) bod unrhyw geffylau sydd wedi marw wrth iddynt gael eu cludo, ac unrhyw sarn (llaesodr) fudr a charthion yn cael eu symud ymaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(2) Ni yw'r erthygl hon yn gymwys yn yr amgylchiadau a nodwyd yn erthygl 4(2) oni bai bod y cyfrwng cludo wedi'i ddefnyddio ddiwethaf i gludo anifail y mae erthygl 3 yn gymwys iddi.

(3) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gyfrwng cludo, na pheri na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio, i gludo unrhyw anifail y mae erthygl 3 yn gymwys iddo oni bai bod y cyfrwng cludo ac unrhyw gyfarpar wedi'u glanhau a'u diheintio yn unol ag Atodlen 2 ers iddynt gael eu defnyddio ddiwethaf i gludo ceffyl.

(4) Rhaid gwneud y glanhau a'r diheintio o dan yr erthygl hon yn unol â pharagraffau 1, 3 a 4 o Atodlen 2.

### Cabiau Gyrwyr

**6.** Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol diheintio y tu mewn i gab gyrrwr unrhyw gyfrwng cludo.

### Gwaredu deunydd ar ôl glanhau

**7.**—(1) Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am lanhau'r cyfrwng cludo ac unrhyw gyfarpar o dan y Gorchymyn hwn sicrhau bod yr holl borthiant y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, y sarn (llaesodr), y carthion ac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n tarddu o anifeiliaid, ac unrhyw halogion eraill sydd wedi cael eu symud o'r cyfrwng cludo —

(a) yn cael eu dinistrio;

(b) yn cael eu trin fel bod y perygl o drosglwyddo clefyd yn cael ei ddileu; neu

(c) yn cael eu gwaredu fel nad oes modd i anifeiliaid fynd atynt.

(2) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw ddeunydd y mae gofyn ei waredu o dan Orchymyn Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid 1999(**2**).

### Cyfrwng cludo yn ymadael â lladd-dy neu safle gwerthu

**8.**—(1) Os yw cyfrwng cludo —

(a) wedi'i ddefnyddio i gludo unrhyw anifail y mae erthygl 3 yn gymwys iddo i ladd-dy neu safle gwerthu; a

(b) i ymadael â'r lladd-dy neu'r safle gwerthu heb gludo unrhyw anifeiliaid a heb fod wedi'i lanhau a'i ddiheintio,

rhaid i'r gyrrwr, cyn ymadael â'r safle, roi datganiad ysgrifenedig i feddiannydd y lladd-dy, neu drwyddedai'r safle gwerthu, yn nodi ym mha le y bydd y glanhau a'r diheintio yn unol ag erthygl 3(3) yn digwydd.

(**2**) O.S. 1999/646 fel y'i diwygiwyd ynghylch Cymru gan O.S. 2001/1735 (Cy.122).

(2) Rhaid i'r meddiannydd neu'r trwyddedai —

(a) darparu i'r gyrrwr y ffurf ar ddatganiad y mae'n rhaid iddo fod ar ffurf a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) anfon y datganiadau, ar ôl eu cwblhau, i'r awdurdod lleol drwy ffacs neu gyfrwng arall y cytunwyd arno gyda'r awdurdod lleol yr un diwrnod ag y maent yn dod i law; ac

(c) cadw'r datganiadau gwreiddiol am dri mis ac yn ystod y cyfnod hwnnw eu dangos i arolygydd os bydd yn gofyn amdanynt.

**Pwerau arolygwyr, etc.**

**9.**—(1) Caiff arolygydd sydd wedi ei fodloni naill ai —

(a) bod cyfrwng cludo neu unrhyw gyfarpar heb ei lanhau a'i ddiheintio yn unol â'r Gorchymyn hwn; neu

(b) bod angen glanhau a diheintio cyfrwng cludo neu unrhyw gyfarpar oherwydd y gallai beri perygl o drosglwyddo clefyd,

gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sydd i'w weld ganddo yn gyfrifol am y cyfrwng cludo neu'r cyfarpar hwnnw.

(2) Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan y paragraff blaenorol —

(a) gwahardd defnyddio'r cyfrwng cludo neu'r cyfarpar nes iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio;

(b) gwahardd cadw anifeiliaid ar y cyfrwng cludo nes iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio;

(c) ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo lanhau a diheintio'r cyfrwng cludo neu'r cyfarpar o fewn unrhyw gyfnod a bennir yn yr hysbysiad; neu

(ch) ei gwneud yn ofynnol i'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo gael gwared ar yr holl borthiant y mae anifeiliaid wedi cael mynd ato, y sarn (llaesodr), y carthion a deunyddiau eraill sy'n tarddu o anifeiliaid yn y modd a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Os cyflwynir hysbysiad o dan y paragraff blaenorol, rhaid gwneud y glanhau a'r diheintio yn unol ag Atodlen 2 onid yw'r hysbysiad yn pennu dull arall o lanhau a diheintio.

(4) Caiff arolygydd gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo wneud y glanhau a'r diheintio yn unol ag erthygl 3, 4 neu 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw wneud y glanhau a'r diheintio yn unol â'r hyn a bennir yn yr hysbysiad yn lle eu gwneud yn unol ag Atodlen 2 os yw'r arolygydd wedi ei fodloni bod angen gwneud hynny at ddibenion iechyd anifeiliaid.

(5) Onid yw person yn cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan yr erthygl hon, caiff arolygydd drefnu y cydymffurfir â darpariaethau'r hysbysiad ar draul y person y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo.

**Gorfodi**

**10.**—(1) Yr awdurdod lleol sydd i orfodi'r Gorchymyn hwn.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, fod rhaid i ddyletswydd i orfodi sydd wedi'i gosod ar awdurdod lleol o dan y rheoliad hwn gael ei chyflawni gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol ac nid gan yr awdurdod lleol.

**Dirymu**

**11.** Dirymir Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 2) 2003(**3**).

(**3**) O.S. 2003/1470 (Cy.172).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

29 Gorffennaf 2003

*John Marek*
Y Dirprwy Lywydd

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
29 Gorffennaf 2003

*Ben Bradshaw*
Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol